


# CANLLAW BUDDIOL I OEDOLION

## CODI TOCYNNAU

- Bydd HOOF! ar fynd y tu allan i Neuadd Llanrhymni o ddydd Sadwrn 20 tan ddydd Mercher 23 Rhagfyr 2020 am bedwar o'r gloch, hanner awr wedi pump a saith o'r gloch bob dydd.
- Gallwch godi eich tocynnau am ddim yn Neuadd Llanrhymni o fynd i'r ddesg wybodaeth a chael gair ag aelod o'r staff neu wirfoddolwr. Gwaetha'r modd, fydd tocynnau ddim ar gael i'w codi dros y ffôn gan fod gofyn eu casglu nhw'n bersonol.
- Bydd gofyn i chi godi tocyn Grŵp Teulu, fel y gallwch fod gyda'ch gilydd yn deulu yn ystod y sioe. Rhaid i bob Grŵp Teulu beidio â bod yn fwy na chwech o bobl. Rhaid i bawb yn y grŵp fod o'r un aelwyd neu aelwyd estynedig. I gydymffurfio â rheoliadau cadw pellter cymdeithasol, rhaid i chi beidio â chodi tocynnau i neb o'r tu allan i'ch aelwyd neu'ch aelwyd estynedig.
- Mae croeso i chi ddod i HOOF! ar yr un pryd â'ch ffrindiau a'ch teulu o aelwydydd eraill, ond cofiwch fod rhaid i chi godi tocynnau ar wahân a chadw pellter cymdeithasol dau fedr yn wastad yn ystod y perfformiad.
- Rhaid i grwpiau gynnwys o leiaf dau o bobl. Rhaid i grwpiau i gyd gynnwys o leiaf un plentyn.
- Rhaid i bob aelod o'r grŵp, yn cynnwys babis, fod â thocyn.

## DOD I NEUADD LLANRHYMNI

Mae Neuadd Llanrhymni yn Ball Road, Llanrhymni, Caerdydd, CF3 4JJ.

Gewch chi gyfarwyddiadau manylach i'r oedfan yma: https://www.llanrumneyhall.org/

## CYN Y SIOE

Cofiwch gyrraedd Neuadd Llanrhymni dim cynt na chwarter awr cyn dechrau'r sioe. Pan gyrhaeddwch chi bydd gofyn i chi gofrestru gyda'n staff Theatr Iolo ar du blaen yr adeilad. Pan gyrhaeddwch chi rown ni arweiniad i chi ynghylch lle i sefyll, dangos i chi'r mannau diheintio dwylo a lle mae'r tai bach. Byddwch yn cael mynd ag unrhyw gadeiriau gwthio a/neu unrhyw bethau personol i'ch canlyn. Cofiwch mai ar eich sefyll yn yr awyr agored y byddwch chi a gwisgo'n gynnes at hynny gan na fydd dim gwres i'r gynulleidfa na gorchudd uwchben.

## CYFLEUSTERAU

Mae yna dai bach yn y prif adeilad ar gael i'r gynulleidfa eu defnyddio, gan gynnwys cyfleusterau newid clytiau. Fodd bynnag, rydym yn cymell cynulleidfaoedd i fynd i'r tŷ bach cyn gadael cartref yn gymorth i ni gyfyngu ar y nifer o bobl yn defnyddio'r cyfleusterau ar y safle. Cofiwch mai dan do mewn man cyhoeddus y mae'r rhain felly bydd gofyn i oedolion i gyd (ar wahân i'r rheini sy'n eithredig) wisgo gorchudd wyneb yn ôl rheoliadau Llywodraeth Cymru.

## YN YSTOD Y SIOE

Bydd yr hwyl ar ei hyd yn para ugain munud.

Yn yr awyr agored yn y man coediog ar y safle y bydd y perfformiad ar fynd.

Pan gyrhaeddwch chi rhoddir chi a'ch teulu mewn man aros wedyn rhoddir man sefyll wedi'i farcio i chi, lle'r arhoswch chi drwy gydol y perfformiad. Bydd y mannau hyn bob amser wedi'u gosod o leiaf dau fedr ar wahân i unrhyw aelodau eraill o'r gynulleidfa a'r perfformwyr.

Gofynnir i'r gynulleidfa sefyll drwy gydol y perfformiad (ugain munud ar ei hyd). Does yna ddim mannau eistedd, fodd bynnag os oes gennych chi neu os oes gan rywun o'ch aelwyd ofynion mynediad, cofiwch e-bostio hello@theatriolo.com ac fe wnawn ein gorau i ymorol am unrhyw ofynion penodol.

Cyflwynir y perfformiad yma ar ffurf hamddenol, ond fe fydd yn cynnwys goleuadau llwyfan, cerddoriaeth ac effeithiau sain, er na fydd yna ddim cleciau uchel na goleuadau strôb. Rydym yn wirioneddol awyddus i'ch annog chi a'ch teulu i ymateb ym mha fodd fyw fynnoch chi ac os bydd rhywun o'ch teulu, am ba reswm bynnag, yn anniddigo neu'n cynhyrfu a chithau am ymbellhau o'r man perfformio, mae croeso i chi ddod yn eich ôl pryd bynnag y byddwch chi a nhw'n barod.

Dim ond ychydig iawn o'r iaith lafar fydd yn y sioe yma sy'n hynod o weledol. Rhoddir dalen i aelodau o'r gynulleidfa sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw i egluro'r pytiau sain yma.

## AR ÔL Y SIOE

Ar ddiwedd eich profiad HOOF! gofynnir i chi symud o'r man perfformio a gadael y safle.

Byddem wrth ein boddau o'ch gweld chi'n rhoi i ni eich ymateb didwyll i'ch profiad drwy rannu eich sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio'r hashnod #HOOF a gallwch ein tagio ni ar Twitter neu Instagram gan ddefnyddio @TheatrIolo neu ar Facebook.com/TheatrIolo

Byddai hefyd yn wych pe gallech chi lenwi arolwg byr iawn wedi'r sioe gaiff ei e-bostio atoch chi ar ôl y perfformiad. Bydd yr arolwg hefyd ar gael ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol.

**Ymunwch â'n Rhestr Bost** i gael gwybod am ddigwyddiadau a sioeau i ddod gan Theatr Iolo drwy ymuno ar ein gwefan neu drwy e-bostio hello@theatriolo.com.

## CWESTIYNAU MYNYCH

### At ba oed mae'r sioe yma'n addas?

Mae'r sioe wedi'i thargedu at **blant pedair oed a throsodd** ond mae'n addas i'r teulu i gyd!

### Be sy'n digwydd ar dywydd mawr?

Os bydd hi'n tresio bwrw neu'n dywydd mawr a hynny'n peri na fydd dim modd i'r perfformiad sydd yn yr arfaeth fynd yn ei flaen, rhown wybod i chi cyn gynted ag y bo modd. Yn y man cyntaf cynigir perfformiad arall i chi yn y rhediad y gallwch symud eich tocynnau iddo ond os na fydd hyn yn gyfleus cynigir ad-daliad llawn i chi.

### Mae fy nhocynnau gen i ond bellach ni allaf ddod. Be ddylwn i wneud â'm tocynnau?

Os na allwch chi ddod i'r perfformiad rydych wedi codi tocynnau iddo a chithau am newid y dyddiad a/neu'r amser cofiwch ddod yn eich ôl i Neuadd Llanrhymni ac fe wnawn ni'n gorau i'w ffeirio nhw am berfformiad arall.

Os oes arnoch chi eisiau dychwelyd eich tocynnau heb eu ffeirio, dewch â nhw'n ôl i Neuadd Llanrhymni fel y gallwn ni'u rhoi nhw i deulu arall. Neu gallwch roi caniad i Neuadd Llanrhymni ar 02920 001441 neu ebostio hello@theatriolo.com. Os oes gennnych deulu y byddai'n dda gennych roi eich tocynnau iddo, cofiwch roi gwybod i ni fel bod yr wybodaeth gywir gennym ar gyfer Monitro ac Olrhain.

**Os ydych chi'n hunanynysu oherwydd COVID-19, PEIDIWCH, da chi, â dod i Neuadd Llanrhymni i ddychwelyd eich tocynnau.** Naill ai rhowch ganiad i Neuadd Llanrhymni ar 02920 001441 neu e-bostio hello@theatriolo.com fel y gallwn ni roi eich tocynnau i deulu arall.

### Mewn ymateb i Gyfyngiadau Pandemig Covid 19

- Byddwn yn cadw at ganllawiau cadw pellter cymdeithasol a bydd pob grŵp teulu o leiaf dau fedr o bellter oddi wrth unrhyw grwpiau eraill a'r perfformiwr. Bydd y staff i gyd hefyd yn

cadw at ganllawiau cadw pellter cymdeithasol a bydd ein staff wrth law i atgoffa pawb sydd yna o'r canllawiau dau fedr, fel y gallwch hamddena a chael blas ar y profiad.

- Dim ond i'r oedolion a'r plant yn eich aelwyd eich hun neu'ch aelwyd estynedig y bydd tocynnau pob grŵp teulu.
- Ni fydd mwy na chyfanrif o 24 o bobl yn y gynulleidfa, i roi digon o le i chi i gyd a mannau gwylio da.
- Bydd gofyn i chi godi tocynnau yn Neuadd Llanrhymni a rhoi eich manylion cysylltu. At ddibenion Monitro ac Olrhain y bydd hyn ond hefyd i roi gwybod i chi os bydd unrhyw newidiadau ar y funud olaf oherwydd y tywydd.
- Mae croeso i chi wisgo gorchudd wyneb, ac rydym yn cymell hyn, os gallwch wneud hynny. Fodd bynnag, nid argymhellir gorchuddion wyneb i blant dan dair oed am resymau iechyd a diogelwch.
- Bydd hylif diheintio dwylo ar y safle ac ar gael i bawb ei ddefnyddio. Bydd yna hefyd ddŵr cynnes a sebon ar gael yn y tai bach i olchi dwylo.
- Cofiwch beidio â dod i'r digwyddiad os atebwch yn gadarnhaol i unrhyw un o'r cwestiynau isod...
    - Oes gennych chi, neu rywun ym mharti eich archeb, unrhyw symptomau peswch, twymyn neu wres mawr neu oerfel, gwynt byr neu anawsterau anadlu, colli eich teimlad oglau neu flas neu newid ynddynt?
    - Ydych chi neu rywun o'ch parti wedi'ch diagnosio â phrawf positif, neu a amheuir, haint COVID-19 yn y pythefnos aeth heibio?
    - Fuoch chi mewn cysylltiad agos â rhywun sy'n achos COVID-19 positif, neu a amheuir, yn y pythefnos aeth heibio? (diffiniad cysylltiad agos ydi llai na dau fedr am fwy na chwarter awr y diwrnod)
    - Ydych chi neu rywun arall o'ch parti wedi'ch cynghori i hunanynysu ar yr adeg yma?
    - Ydych chi neu rywun arall o'ch parti wedi'ch cynghori i warchod ar yr adeg yma?
    - Ydych chi neu rywun arall o'ch parti yn disgwyl canlyniadau prawf COVID-19 ar hyn o bryd?
    - Ydych chi neu rywun arall o'ch parti yn y categori a ddiffinnir yn risg uwch o ran COVID-19?
    - Ydi aelod / aelodau o'ch aelwyd chi, neu aelwyd rhywun arall o'ch parti, yn y categori a ddiffinnir yn risg uwch o ran COVID-19?
- Os ateboch chi'n gadarnhaol i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, cofiwch roi gwybod i ni drwy e-bostio hello@theatriolo.com fel y gallwn roi eich tocynnau i deulu arall. Peidiwch, da chi, â dychwelyd eich tocynnau'n bersonol os ydych chi'n hunanynysu.

## Mae gen i ragor o gwestiynau...

Os oes gennych ragor o gwestiynau, cofiwch anfon e-bost atom i hello@theatriolo.com neu roi caniad i ni ar 02920 613782 a byddwn yn falch o'ch helpu.